

Cronfeydd Sir y Fflint

Meini Prawf Cyllid: Unigolion



Cronfa Gwaddol Cymunedol Sir y Fflint

Mae Cronfa Waddol Cymunedol Sir y Fflint yn cefnogi:

- Prosiectau cyrhaeddiad addysgol gan gynnwys dysgu gydol oes
- Prosiectau cynhwysiant addysg ar gyfer myfyrwyr unigol ar ffurf bwrsariaethau, cymorth teithio, chwaraeon, gwobrau am gyrhaeddiad a deunyddiau addysgol neu adnoddau eraill.

Grantiau ar gael

Gall unigolion wneud cais am grant blynyddol o hyd at £500.

Pwy all wneud cais?

Gall unigolion hyd at a chan gynnwys 25 oed sy'n byw ar hyn o bryd yn ardal Awdurdod Lleol Sir y Fflint, ar yr amod nad yw'r mentrau yn dod o fewn darpariaeth statudol wneud cais am grant blynyddol.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu dangos yn union sut y byddant yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac nad ydynt wedi derbyn cefnogaeth gan y Gronfa hon o'r blaen.



Sut i wneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan.

Sylwer:

- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. am gostau a dynnir cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, a dychwelwyd y telerau a'r amodau llofnodedig.
- Rhaid gwario'r grantiau'n llawn o fewn blwyddyn o dderbyn ein llythyr cynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i unigolion allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu dros y tymor hir. Mae Cronfa Sir y Fflint bellach yn cynnig cyfle i unigolion wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at 3 blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid 1 flwyddyn ar gyfer prosiectau neu eitemau cyfalaf bach.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, dylech ddangos yr angen a'r effaith o gael cyllid am nifer o flynyddoedd o fewn eich ffurflen gais. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.